

# Nid angylion yw'r saint

*“Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel cymdeithas.  
Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch.” (adn. 10)*

## Beth am ddarllen Rhufeiniaid 12:9–21 ac yna myfyrio

Yn ôl yr apostol Pedr, mae angen ychwanegu ‘cariad brawdol’ at dduwioldeb. Wrth inni dyfu fel Cristion, nid yn unig mae galw arnom i ddilyn yr Arglwydd ond mae angen inni ddilyn perthynas dda gyda phawb. Mae duwioldeb sydd yn edrych yn unig tuag at yr Arglwydd ac yn methu llifo i mewn i'n perthynas ag eraill yn dduwioldeb ffug.

Os ydym yn cael bod perthynas â phobl yn boen, yna mae rhywbeth o'i le ar ein crefydd ni. Nid yw adeiladu perthynas gyda phobl bob amser yn rhwydd, oherwydd nid yw hyd yn oed y saint yn angylion, ond mae'n rhywbeth y dylem wneud pob ymdrech i'w sicrhau. Un tro, wedi i mi wneud y sylw, dywedodd gŵr wrthyf: “Mae llawer o'm cydnabod yn angylion.” “Beth wyt ti yn ei olygu?” gofynnais. Esboniodd: “Maent yn hedfan i'r awyr am y peth lleiaf.”

Fe ddywedir mai ‘bod, yw bod mewn perthynas’. Mewn geiriau eraill, ni ddown i adnabod ein hunain yn iawn hyd nes y byddwn mewn perthynas â rhywun arall. Mae'r bobl hynny sydd wedi dioddef o berthynas ddiffygiol yn y blynyddoedd cynnar yn aml yn cael anhawster gyda'u hunaniaeth. Yn ôl Leslie B. Salter, awdur o'r Amerig: “Mae pob dyn neu wraig fel arfer yn dyheu am gyfeillgarwch, yn dyheu am edmygedd, yn dyheu am ymateb oddi wrth bobl o fewn eu cylch o ffrindiau a'u cydnabod.” Caniatewch i eraill gael yr hyn y maent yn dyheu amdano. Does dim o'i le ar hynny. Cychwynnwch trwy ymestyn cariad brawdol at y rhai sydd o'ch amgylch. Peidiwch ag aros tan yfory. Cychwynnwch heddiw. Mae'r caredigrwydd yr ydych yn ei ddangos yn debyg o gael effaith mewn dwsinau o wahanol ffyrdd. Ond hyd yn oed os na chaiff effaith, mi fyddwch chi yn well person o'i gynnig.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Col. 3:12–17; 1 Thes. 4:9–10; Heb. 13:1–3; 1 Pedr 1:22

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ysgrifennwch ddiffiniad o gariad brawdol.
2. Sut mae cariad brawdol yn gweithredu?

## Gweddi

O Dad nefol, maddau i ni am ddefnyddio brodyr a chworydd i ddibenion hunanol. Gwared ni rhag defnyddio eraill, ond yn hytrach, i roi ein hunain er mwyn eraill. Yn enw Iesu. Amen.